YSGOL GYFUN LLANGEFNI

# Hysbysiad Preifatrwydd – Plant a Phobl Ifanc

## Sut yr ydym yn Defnyddio, Rhannu a Diogelu eich Gwybodaeth Bersonol

*(The English version is underneath the Welsh version)*

**Cyflwyniad**

Mae'r ysgol yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth amdanoch am nifer o resymau sy'n cael eu dangos yn y ddogfen hon. Enw'r ddogfen yw *'Hysbysiad Preifatrwydd'*.

Rydym eisiau gadael i chi wybod bod eich gwybodaeth yn ddiogel gyda ni. Gair sydyn yw hwn i adael i chi wybod sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth, sut y byddwn yn ei chofnodi, a sut y byddwn yn ei defnyddio.

Mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn gwybodaeth i sicrhau eich bod yn ddiogel ac i helpu i wneud yn siŵr eich bod yn cael lefel dda o addysg.

Gallwch ofyn i'ch rhieni neu ofalwyr am eich helpu gyda'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch roi caniatâd iddynt ofyn cwestiynau neu lenwi ffurflenni i chi os ydych yn hapus iddyn nhw wneud hynny. Efallai y bydd yr ysgol weithiau yn gofyn i'ch rhieni a'ch gofalwyr am eich gwybodaeth bersonol ac yn gofyn a yw hi'n iawn i ni ei defnyddio ar gyfer ambell beth.

Efallai y bydd eich rhieni neu ofalwyr eisiau darllen ein prif ddogfen *'Hysbysiad Preifatrwydd'* sy'n rhoi mwy o wybodaeth.

**Eich gwybodaeth bersonol**

Mae'r ysgol yn casglu eich **gwybodaeth bersonol.**

Mae gan bawb wybodaeth bersonol. Mae hyn yn gallu bod yn:

- eich enw;
- eich cyfeiriad;
- eich dyddiad geni;
- llun neu recordiad ohonoch.

Mae hon yn wybodaeth y byddai rhywun yn gallu ei defnyddio i'ch **adnabod** chi. Mae hyn yn helpu i bobl wybod pwy ydych chi a beth ydych ei angen.

**Pa wybodaeth sydd gennym amdanoch?**

Mae'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gallu cynnwys:

- manylion personol fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni;
- gwybodaeth amdanoch, fel o le yr ydych yn dod, pa iaith yr ydych yn siarad, ac ati;
- gwybodaeth am eich cadw'n saff, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth yr ydych yn ei chael gan wasanaethau cymdeithasol;
- unrhyw gefnogaeth ychwanegol yr ydych ei hangen i'ch helpu i ddysgu;
- gwybodaeth am eich iechyd, meddyginiaeth yr ydych yn ei chymryd, unrhyw alergeddau, canlyniadau profion Covid-19 (gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw amseroedd yr ydych wedi bod yn sâl ac unrhyw gyflyrau meddygol arbennig sydd gennych y mae'n rhaid i ni wybod amdanynt i'ch cadw'n saff);
- eich cofnodion presenoldeb ac unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i ddelio gyda phroblemau (faint o weithiau yr ydych wedi methu'r ysgol a pham wnaethoch ddim dod i'r ysgol);
- eich profion ysgol a'ch canlyniadau arholiadau;
- gwybodaeth am eich ymddygiad (digwyddiadau sydd wedi digwydd yn ystod amser ysgol, y nifer o weithiau yr ydych wedi cael eich gwahardd a pham);
- gwybodaeth am dripiau ysgol a gweithgareddau yr ydych wedi bod arnynt;
- enwau a rhifau ffôn eich rhieni neu'ch gofalwyr;
- lluniau, fideos neu ddelweddau oddi wrth ffrydiau ar-lein ('*online streaming*').

Mae peth o'r wybodaeth amdanoch yn **sensitif**. Gwybodaeth arbennig amdanoch yw hon sy'n sôn am bwy ydych, fel eich iechyd, lliw eich croen, beth ydych yn ei gredu am grefydd.

Mae'r wybodaeth yma yn ein helpu i wybod pwy ydych chi a beth ydych ei angen.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am edrych ar ôl eich gwybodaeth bersonol ac rydym yn edrych ar sut a pham y mae eich gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio.

**Beth ydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?**

Rydym yn defnyddio gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n rhaid i ni gasglu eich gwybodaeth i'n helpu i wneud ein swydd ac i ddilyn y gyfraith.

Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch fel y gallwn:

- gefnogi eich dysgu;
- eich cadw'n saff a'ch amddiffyn;
- rhoi'r gofal a'r gefnogaeth gywir i chi;
- monitro ac adrodd ar eich cynnydd;
- gwirio ansawdd ein gwasanaeth;
- gwirio a ydych angen cefnogaeth ychwanegol gyda dysgu;
- gwirio eich presenoldeb;
- cyfathrebu gyda chi a'ch rhieni neu ofalwyr;
- trefnu tripiau a gweithgareddau;
- cydymffurfio gyda'r gyfraith mewn perthynas â rhannu gwybodaeth.
- amddiffyn iechyd pawb.

**Y gyfraith mewn perthynas â defnyddio a chadw eich gwybodaeth yn ddiogel**

Mae cyfreithiau ynglŷn â sut i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Mae'n nhw'n rhoi mwy o reolaeth i chi dros eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth bersonol. Mae cyfraith newydd mewn lle o'r enw:

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)

Mae'n rhoi **mwy o reolaeth** i chi dros eich gwybodaeth bersonol.

Mae'n gwneud yn siŵr bod rhaid i bawb sy'n casglu gwybodaeth:

- ddweud wrthych pam y maent eisiau eich gwybodaeth bersonol;
- fod yn glir am beth fyddant yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol;
- yn gwneud yn siŵr eu bod yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel;
- cael gwared â'ch gwybodaeth bersonol pan nad ydynt ei hangen ddim mwy.

Cyfraith arall yw'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae'n rhaid i ni gael rheswm cyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Yr enw am hyn ydi'r 'sail gyfreithiol dros brosesu'. Rydym yn gwneud hyn am y rhesymau canlynol:

- i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol;
- i berfformio gorchwyl buddion y cyhoedd;
- i berfformio contract.

Mae'n orfodol i chi roi llawer o'r wybodaeth yr ydym ei hangen i ni, ond mae ychydig o wybodaeth y cewch ddewis ei rhoi i ni neu beidio.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth nad oes rhaid i chi ei rhoi i ni, byddwn yn gofyn i chi neu eich rhieni neu ofalwyr am **ganiatâd** ac yn gadael i chi wybod pam ein bod eisiau'r wybodaeth a beth fyddwn yn ei wneud gyda hi. Os nad ydych eisiau i ni gael yr wybodaeth, **dewis chi** yw hyn.

**Sut yr ydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol**

Rydym yn casglu eich gwybodaeth drwy ofyn i chi neu eich rhieni/gofalwyr i lenwi ffurflenni ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Byddwn weithiau yn gofyn amdani ar amseroedd eraill yn y flwyddyn pan fyddwn ei hangen. Os ydych yn symud ysgol, bydd yr wybodaeth yn dod atom ni neu'r ysgol newydd pan fyddwch yn symud.

Rydym yn defnyddio camerâu CCTV yn yr ysgol fel gallwn eich cadw'n saff. Mae'r rhain o amgylch yr ysgol a byddwch yn gweld arwyddion sy'n dweud wrthych am y camerâu. Efallai byddwn yn rhannu'r fideos sydd wedi cael eu recordio gan y camerâu i'ch cadw'n saff ac i helpu i stopio trosedd.

Weithiau, byddwn yn gwirio gyda chi neu eich rhieni/gofalwyr i weld a yw'r wybodaeth sydd gennym amdanoch dal yn **gywir.** Os yw eich gwybodaeth yn newid, rydym eisiau i chi neu eich rhieni/gofalwyr adael i ni wybod er mwyn i ni gael yr wybodaeth gywir amdanoch.

## Sut yr ydym yn edrych ar ôl eich gwybodaeth

Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw eich gwybodaeth yn **ddiogel**. Rydym yn amddiffyn yr wybodaeth sydd gennym amdanoch ac yn ei chadw dan glo er mwyn gwneud yn siŵr nad yw’n mynd ar goll nac yn cael ei newid mewn camgymeriad, ac i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un sydd ddim i fod i’w gweld yn ei gweld.

Mae’n rhaid i bob aelod o staff sy’n gweithio yn yr ysgol gadw eich gwybodaeth yn **gyfrinachol** oni bai bod angen eich amddiffyn a’ch cadw’n saff. Dim ond pobl sydd angen gweld eich gwybodaeth sy’n gallu ei gweld.

Os oes unrhyw beth yn mynd yn anghywir gydag edrych ar ôl eich gwybodaeth bersonol, mae gennym ffordd o edrych i mewn i beth sydd wedi digwydd. Byddwn yn dweud wrthych chi neu eich rhieni neu gofalwyr os ydych angen gwybod am beth sydd wedi digwydd.

## Am ba mor hir yr ydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn cadw gwybodaeth wahanol am amseroedd gwahanol yn dibynnu ar beth yw’r wybodaeth. Nid ydym yn ei chadw am byth, dim ond am ba mor hir ag ydym ei hangen i’n helpu i wneud beth ydym ei hangen ar ei gyfer.

Mae gennym *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion*, sef dogfen sy’n dweud wrthym am ba mor hir y mae angen i ni gadw’r wybodaeth a pha bryd i gael gwared â hi. Gallwch ofyn i’r Pennaeth os ydych eisiau gweld hon.

## Sut fyddwn yn cael gwared o’ch gwybodaeth bersonol

Byddwn yn cael gwared ag unrhyw gofnodion papur neu electronig gyda’ch gwybodaeth bersonol mewn ffordd **ddiogel**.

## Gyda phwy yr ydym yn rhannu eich gwybodaeth

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch gydag unrhyw un arall, oni bai am mewn achosion arbennig, fel pan fydd yn helpu i’ch cadw’n ddiogel. Weithiau mae’n rhaid i ni roi eich gwybodaeth i bobl eraill fel y llywodraeth, ond byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth pan fyddwch chi’n dweud bod hynny’n iawn neu pan fydd y gyfraith yn dweud ein bod yn cael neu y dylwn ni.

Os ydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn egluro gyda phwy yr ydym yn ei rhannu a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn ei chadw’n saff.

Dim ond gyda phobl a sefydliadau y mae’n rhaid i ni ei rhannu gydag y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol. Pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhoi i rywun arall, mae’n rhaid iddynt edrych ar ei hôl a’i chadw’n ddiogel.

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda:

- athrawon a staff eraill yn yr ysgol;
- eich teulu neu ofalwyr;
- ysgolion eraill;
- ein hawdurdod lleol, Cyngor Sir Ynys Môn;
- gwasanaethau cymdeithasol a llefydd eraill fel y gallwn eich amddiffyn a'ch cadw'n ddiogel;
- Llywodraeth Cymru;
- sefydliadau sy'n gwirio bod yr ysgol yn gwneud beth mae fod i'w wneud fel Estyn a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru);
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- sefydliadau sy'n penderfynu be rydych chi yn ei ddysgu a sydd yn gosod arholiadau;
- colegau fel Grŵp Coleg Menai Llandrillo a llefydd addysg eraill;
- sefydliadau sy'n gwneud ymchwil neu holiaduron;
- pobl sy'n edrych ar ôl eich iechyd fel nyrsys a deintyddion ysgol;
- Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyngor Sir Ynys Môn) efo materion Covid-19;
- yr Heddlu a'r llysoedd;
- papurau newydd os ydym yn rhannu lluniau a newyddion am weithgareddau ysgol;
- cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth (sefydliadau y mae'r ysgol yn eu talu i'n helpu gyda'ch dysgu a gyda rhedeg yr ysgol);
- grwpiau cymunedol, chwaraeon, cerdd a chymdeithasu fel yr Urdd

**Eich hawliau**

Mae gennych yr un 'hawliau' mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol na sydd gan oedolion.

Mae gennych yr hawl i:

- ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch (gallwch weld mwy am hyn isod);
- cael gwybod sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol;
- gofyn i ni am newid unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn meddwl sy'n anghywir;
- gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau;
- gofyn i ni ond defnyddio eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol dan rai amgylchiadau, ond ddim pan yr ydym angen cael cefnogaeth i chi neu eich cadw'n ddiogel;
- gofyn i ni beidio â defnyddio eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau os yw'n eich gwneud yn anhapus;
- gofyn i ni gael gwared â'ch gwybodaeth bersonol o'n systemau a'i rhoi i sefydliad arall i'w defnyddio ar eu systemau nhw dan rai amgylchiadau;
- atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud yn awtomatig. Hyn yw pan mae cyfrifiadur yn gwneud penderfyniad amdanoch.

Gallwch wneud cwyn os ydych yn credu nad ydym yn parchu eich hawliau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yno i'ch helpu. Mae eu manylion cyswllt ar y diwedd.

**Gofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch**

Gallwch ofyn i ni pa wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Enw hyn yw "cais i weld gwybodaeth". Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn i ni am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch.

Os ydych eisiau gofyn am eich gwybodaeth bersonol, gofynnwch i swyddfa'r ysgol.

Byddwn yn rhannu copïau o'ch gwybodaeth bersonol gyda chi o fewn **mis**. Os yw'n gymhleth, byddwn yn rhoi copïau o'ch gwybodaeth i chi o fewn **tri mis**.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddweud mwy wrthym am ba wybodaeth yr ydych eisiau gennym ac yn gofyn i chi roi gwybodaeth i ni sy'n dangos pwy ydych.

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai na fyddwn yn gallu rhoi peth o'r wybodaeth neu'r holl wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Byddwn yn egluro pam na allwn ei rhoi i chi.

**Os oes gennych gwestiynau neu os ydych eisiau mwy o wybodaeth**

Diolch am ddarllen hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich gwybodaeth bersonol, gofynnwch i swyddfa'r ysgol.

E-bost: **DaviesH215@hwbcymru.net**

Rhif ffôn: **01248 723441**

Cyfeiriad: **Penrallt, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7NG**

Os bysech yn hoffi cael mwy o wybodaeth am sut yr ydym yn casglu, defnyddio a chadw eich gwybodaeth bersonol, gofynnwch i gael gweld ein *'Polisi Diogelu Data Ysgolion'*.

Mae hefyd person sy'n edrych ar ôl gwybodaeth mewn ysgolion, sef y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n gweithio yn y Cyngor. Gallwch siarad gyda nhw hefyd a gofyn cwestiynau iddynt. Dyma'r manylion cyswllt:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad: Gwasanaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Gallwch hefyd gysylltu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych eisiau gwneud cwyn neu eisiau gwybod mwy o wybodaeth am eich hawliau. Eu manylion cyswllt yw:

E-bost: https://ico.org.uk/concerns/

Rhif ffôn: 0303 123 1113

Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

YSGOL GYFUN LLANGEFNI

## Privacy Notice- Children and Young People

## How We Use, Share and Protect Your Personal Information

**Introduction**

The school collects and uses information about you for a lot of reasons shown in this document, which is called a *'Privacy Notice'.*

We want to let you know that your information is safe with us. This is just a quick word to let you know how we collect the information, how we will record it and how we will use it.

The school has to be given information to ensure you are safe and help make sure you receive a good level of education.

You can ask your parents or carers to help you with your personal information. You can say that they can ask questions or fill forms in for you if you are happy for them to do this. The school might sometimes ask your parents and carers for your personal information and ask if it is ok for us to use it with some things.

Your parents or carers might want to read our main *'Privacy Notice'* document which gives more information.

**Your personal information**

The school collects your **personal information.**

Everyone has personal information. This can be:

- your name;
- your address;
- your date of birth;
- a picture or recording of you.

This is information that could be used to **identify** you. This helps people know who you are and what you need.

**What information do we have about you?**

The information we have about you may include:

- personal details like your name, address, date of birth;
- information about you, like where you are from, what language you speak and things like that;
- information about keeping you safe including any support you get from social services;
- any extra support you need to help you learn;
- information about your health, medications that you take, any food allergies and information about Covid-19 test results (including information about any times you've been ill and any special medical conditions you have we need to know about to keep you safe);
- your attendance records and any actions taken to deal with problems (how many times you missed school and why you couldn't come to school);
- your school tests and exam results;
- information about your behaviour (incidents that have happened during school time, the number of times you have been excluded and why);
- information about school trips and activities that you have been on;
- your parents or carers' names and phone numbers;
- photos, videos or images from on-line streaming.

Some of the information about you is **sensitive**. This is special information about who you are, such as your health, the colour of your skin, what you believe about religion.

This information helps us know who you are and what you need.

The school is responsible for looking after your personal information and we look at how and why your information is collected and used.

**What are we doing with your information?**

We use information in different ways. We have to collect your information to help us do our job and to follow the law.

We collect information about you so that we can:

- support your learning;
- keep you safe and to protect you;
- provide the right care and support;
- monitor and report on your progress;
- check the quality of our service;
- check if you need extra support with learning;
- check your attendance;
- communicate with you and your parents or carers;
- organise trips and activities;
- comply with the law around sharing information;
- to protect the health of everyone.

| **Laws around using and keeping your information safe** | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| There are laws about how to keep personal information safe. They give you more control over your personal information and anyone collecting personal information. There is a new law in place called:<br><br>UK General Data Protection Regulations (UK GDPR)<br><br>It gives you **more control** over your personal information.<br><br>It makes sure anyone collecting information has to:<br><br>• tell you why they want your personal information;<br>• be clear about what they will do with your personal information;<br>• make sure they keep your personal information safe;<br>• get rid of your personal information when they no longer need it.<br><br>Another law is the Data Protection Act 2018.<br><br>We need to have a legal reason to use your personal information. It's called the 'lawful basis for processing'. We are doing this because of the following reasons:<br><br>• to comply with a legal obligation;<br>• to perform a public interest task;<br>• for the performance of a contract.<br><br>You must give us quite a lot of the information we need, but there is some information that you can choose whether to let us have it or not.<br><br>When we ask you for information that you don't have to give us, we will ask you or your parents or carers for **permission** ('consent') and let you know why we want it and what we will do with it. If you don't want us to have the information, that's **your choice.** | |

**How we collect your personal information**

We collect your information through asking you or your parents or carers to fill in forms at the beginning of the school year. We sometimes ask for it at other times of the year when we need it. If you move school, you information will come to us or the new school when you move.

We use CCTV cameras in the school so that we can keep you safe. These are around the school and you will see signs telling you about the cameras. We might share the videos that the cameras have recorded so we can keep you safe and to help with stopping crime.

We will sometimes check with you or with your parents or carers if the information that we have is still **correct.** If your information changes we want you or your parents or carers to tell us so that we can make sure that we have the right information about you.

**How we look after your information**

We make sure that we keep your information **safe**. We keep information about you protected and locked to make sure that it does not get lost or changed by accident or someone who is not supposed to see it can see it.

All members of staff working at the school have to keep your information **confidential** (secret) unless there is a need to protect you and keep you safe. Only people who need to see your information can see it.

If something goes wrong with looking after your personal information, we have a way of looking in to what has happened. We will tell you or your parents or carers if you need to know about what has happened.

**How long we keep your information**

We keep different information for different lengths of time depending what the information is. We don’t keep it forever, only for as long as we need it to help us do the thing we need it for.

We have a *‘Schools Data Retention Schedule’* which is a document that tells us for how long we need to keep the information and when to get rid of it. You can ask the Headteacher if you want to see this.

**How will we get rid of your personal information**

We will get rid of any paper or computer records with your personal information in a **safe** way.

**Who we share your information with**

We won't share information about you with anyone else, except in special cases, like when it will help keep you safe. Sometimes we have to give your information to other people, such as the government, but we will only share your information when you say it’s ok or when the law says we can or should.

If we share your personal information we will explain who we are sharing it with and we will make sure that we keep it safe.

We only share information that has your personal information with people and organisations that we need to share it with. When your information is given to someone else, they must look after it and keep it safe.

We might share information with:

- teachers and other staff at school;
- your family or your carers;
- other schools;
- our local authority, the Isle of Anglesey County Council;
- Social services and other places so that we can protect you and keep you safe;
- Welsh Government;
- organisations that check that the school is doing what it is supposed to like Estyn and GwE (School Effectiveness and Improvement Service for North Wales);
- youth support services;
- organisations that decide what you are learning and that set exams;
- colleges like Grŵp Coleg Menai Llandrillo and other education places;
- organisations doing research or questionnaires;
- people that look after your health like school nurses and dentists;
- Test, Trace and Protect Service (Public Health Wales and the Isle of Anglesey County Council) about Covid-19;
- the Police and courts;
- newspapers if we are sharing photos and news about school activities;
- suppliers and service providers (organisations that the school pays to help us with your learning and with running the school);
- community, sport, music and socialising groups like the Urdd.

**Your rights**

You have all the same ‘rights’ about your personal information as adults do.

You have the right to:

- ask to see personal information we have about you (see more about this below);
- be told how we use your personal information;
- ask us to change any personal information that you think is wrong;
- ask us to delete your personal information in some circumstances;
- ask us to only use your information in certain ways in some circumstances, but not when we need to get you support or to keep you safe;
- ask us not to use your personal information in some circumstances if it is making you unhappy;
- ask us to remove your personal information from our systems and give it to another organisation to use on their systems in some circumstances;
- prevent automatic decision making. This is when a computer makes a decision about you.

You can complain if you think we’re not respecting your rights. The Information Commissioner’s Office (ICO) is there to help you. Their contact information is at the end.

**Asking to see personal information we have about you**

You can ask us to see what personal information we have about you. This is called a “data subject access request”. This means that you can ask us for a copy of the personal information about you that we have.

If you want to ask for your personal information, please ask the school office.

We will share copies of your personal information with you within **one month**. If it is complicated, we will give you copies of your information within **three months**.

We might ask you to tell us more about what information you want from us and to ask you to give us information that shows us who you are.

In some situations, we might not be able to give you some or all of the information that you have asked us for. We will explain why we are not able to give it to you.

**If you have questions or want more information**

Thank you for reading this. If have questions about your personal information, please ask the school office.

E-mail: **DaviesH215@hwbcymru.net**

Telephone: **01248 723441**

Address: **Penrallt, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7NG**

If you would like to find out more information about how we collect, use and keep your personal information, please ask to see our *‘Schools Data Protection Policy’*.

There is also a person that looks after information in schools who is the Schools Data Protection Officer that works in the Council. You can also talk to them and ask them questions. This is their contact details:

E-mail: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Telephone: 01248 751833

Address: Learning Service, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW

You can also contact the Information Commissioner’s Office (ICO) if you want to make a complaint or want to know more information about your rights. Their contact details are:

E-mail: https://ico.org.uk/concerns/

Telephone: 0303 123 1113

Address: Information Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Website: www.ico.org.uk